# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# DYDD GWENER, 20 MAWRTH 2026

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes a Gareth Williams

**Swyddogion:** Nia Grisdale (Rheolwr Adran Gyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

| | |
|---|---|
| Ian Roberts | Cyfarwyddwr Cyllid Portmeirion Cyf |
| Siân Llywelyn | Rheolwr Gyfarwyddwr Siopau Portmeirion Cyf |
| Meurig Jones | Rheolwr Diogelwch a Rheolwr Lleoliadau Portmeirion Cyf |
| Alun Evans | Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Robin Llywelyn, Rheolwr Gyfarwyddwr Portmeirion

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### a) Adroddiad yr Adran Trwyddedu

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn manylu ar gais am drwydded eiddo gan Portmeirion Cyf i gynnal hyd at bedwar digwyddiad awyr agored yn flynyddol rhwng mis Mai a mis Medi. Bydd bwriad cynnal digwyddiadau trwyddedadwy fydd yn cynnwys cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw a gwerthu alcohol i'w yfed ar yr eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.
Roedd y swyddogion, yn unol â Deddf Drwyddedu 2003, yn argymell i'r Pwyllgor ganiatáu y cais yn unol â'r cytundeb sydd wedi bod gyda'r ymgeisydd i

ychwanegu mesurau rheoli sŵn ar y drwydded.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
- Swyddog cyfreithiol i grynhoi gofynion y cais

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod y cais yn un ar gyfer cynnal hyd at 4 digwyddiad yn Cae Dreif
- Bod y digwyddiadau yn rhan o ddathliadau canmlwyddiant Portmeirion ac yn fodd o nodi'r achlysur
- Y digwyddiadau yn gyfle i ddarparu adloniant a mwynhad i'r pentref i gyd-ddathlu
- Y gobaith yw cynnal pedair noson yn flynyddol wedi hyn
- Eu bod yn cytuno gyda'r amodau rheoli sŵn – wedi cynnal trafodaethau gyda'r trefnwyr a swyddogion y Cyngor

c) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt:

Alun Evans (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd)

- Yn cadarnhau bod yr amodau wedi eu cytuno
- Bod yr amod yna i warchod yr amcan Trwyddedu o Atal Niwsans Cyhoeddus a thrigolion cyfagos o lygredd sŵn
- Yn diolch i Portmeirion am eu cydweithrediad

ch) Cymerodd y Swyddog Cyfreithiol y cyfle i grynhoi gofynion y cais

- Yn gais syml am drwydded cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw a gwerthu alcohol i'w yfed ar yr eiddo
- Y mesurau fel y nodir yn rhan M y cais, i'w cynnwys fel amodau ar yr atodlen weithredol ynghyd a'r amod ychwanegol o reoli sŵn

Ymneilltuodd cynrychiolwyr yr ymgeisydd, Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa

Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais**

**Oriau Agor**
**Dydd Sul –**
**Dydd Llun –**
**Dydd Mawrth –**
**Dydd Mercher –**
**Dydd Iau –**
**Dydd Gwener 18:00 – 23:00**
**Dydd Sadwrn 18:00 – 23:00**

**Gweithgareddau Trwyddedig:**

**Cerddoriaeth Fyw – Awyr Agored**
**Dydd Sul –**
**Dydd Llun –**
**Dydd Mawrth –**
**Dydd Mercher –**
**Dydd Iau –**
**Dydd Gwener 18:00 – 23:00**
**Dydd Sadwrn 18:00 – 23:00**
**Digwyddiadau tymhorol – Mai – Medi - Uchafswm o bedwar digwyddiad mewn blwyddyn**

**Cerddoriaeth wedi'i Recordio**
**Dydd Sul –**
**Dydd Llun –**
**Dydd Mawrth –**
**Dydd Mercher –**
**Dydd Iau –**
**Dydd Gwener 18:00 – 23:00**
**Dydd Sadwrn 18:00 – 23:00**
**Digwyddiadau tymhorol – Mai – Medi - Uchafswm o bedwar digwyddiad mewn blwyddyn**

**Cyflenwi Alcohol - Ar yr Eiddo**
**Dydd Sul –**
**Dydd Llun –**
**Dydd Mawrth –**

**Dydd Mercher –**
**Dydd Iau –**
**Dydd Gwener 18:00 – 23:00**
**Dydd Sadwrn 18:00 – 23:00**

**Digwyddiadau tymhorol – Mai – Medi - Uchafswm o bedwar digwyddiad mewn blwyddyn**

**Y mesurau ychwanegol, fel y nodir yn rhan M y cais, i'w cynnwys fel amodau gan gynnwys yr amod ychwanegol i reoli sŵn isod:**

**Amodau Rheoli Sŵn**

1. **Ni fydd lefel y sŵn adloniant a gynhyrchir yn ystod digwyddiad goruwch yr hyn a fanylir yn nhabl 1 isod, rhwng 18:00 a 23:00, 1 medr o bared unrhyw eiddo sensitif i sŵn yn yr ardal leol.**

| **Paramedr Mesur** | **Oriau caniataëdig** | **Lefel Pared (dB)** | **Lefel Cae Agored (dB)** |
|---|---|---|---|
| $L_{Aeq,\ 15\ munud}$ (“) | 10:00 – 23:00 | 65 | 62 |
| Band octif 31.5Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |
| Band octif 63 Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |
| Band octif 125 Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |

2. **Bydd unrhyw fesur sŵn i sefydlu cydymffurfiaeth gyda’r amod uchod i ddilyn y canllawiau mesur sy’n gynwysedig yn Safon Brydeinig 4142:2019**
3. **Bydd nifer y digwyddiadau wedi eu cyfyngu i 4 dros unrhyw gyfnod o 12 mis.**
4. **Ni chaniateir mwy na 2 ddigwyddiad yn olynol dros unrhyw gyfnod o 7 diwrnod.**

**(“) Diffinnir y paramedr mesur LAeq fel - Y lefel sŵn cymharol di dor mewn lleoliad dros amser penodol sydd gyda’r un egni sŵn a sŵn sy’n amrywio dros yr un cyfnod yn yr un lleoliad.**

**(*)Ni ddylid rhoi pwysedd amledd i’r mesuriadau band octif. Dylid mesuriadau band octif (amledd canol) 31.5 Hertz, 63 Hertz and 125Hertz fod yn unionlin.**

**Yr amodau yn seiliedig ar ganllawiau'r Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli Sŵn amgylcheddol o gyngherddau (Cyngor Sŵn, 1995)**

Yng nghyd-destun **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn**, ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus**, derbyniwyd sylwadau gan Gwasanaeth Llygredd Gwarchod y Cyhoedd. Er nad oedd gwrthwynebiad i’r cais mewn egwyddor roedd pryder am botensial sŵn cerddoriaeth chwyddedig o’r

cyngherddau fyddai'n creu niwsans cyhoeddus i unrhyw eiddo preswyl cyfagos. Argymhellwyd amodau i reoli sŵn ac roedd yr ymgeisydd wedi cytuno i'w derbyn (yr amodau yn ychwanegol wedi eu nodi uchod).

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.20 y.b.

**CADEIRYDD**